Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Gogerddan**

**Ysgol Rhydypennau**
**Bow Street**
**Aberystwyth**
**SY24 5AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 25 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Clwb Gogerddan ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Gorffennaf 2017. Mae'n darparu gofal y tu allan i oriau ysgol ar gyfer uchafswm o 50 o blant rhwng pedair a 12 mlwydd oed. Mae'r clwb wedi'i leoli yn Ysgol Rhydypennau yn Bow Street, Ceredigion, a darperir y gofal yn Gymraeg a Saesneg. Yr oriau agor ar gyfer y gwasanaeth yw rhwng 3.30pm a 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol, a rhwng 8.30am a 5.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS. Yr unigolyn cyfrifol, ar ran y darparwr cofrestredig, Gogerddan Child Care Ltd, yw Emma Healy, a'r person â gofal yw Lianne Savage.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus iawn yng Nghlwb Gogerddan. Maen nhw'n cael llawer o gyfleoedd chwarae hwyliog ac maen nhw'n ymgysylltu ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Mae'r staff wedi'u hysgogi ac yn frwdfrydig ac yn cefnogi plant yn dda i ddatblygu eu sgiliau chwarae a'u hannibyniaeth. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dan do ac amgylchedd awyr agored addas iawn ar gyfer y plant sydd wedi'u cyfarparu'n dda, ac maen nhw'n rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Roedd y gwasanaeth yn parhau i wella'r adnoddau a oedd ar gael i'r plant. Roedd wedi prynu adnoddau i ddiwallu anghenion a diddordebau'r plant a oedd yn mynychu, megis set wyddbwyll, defnyddiau ar gyfer adeiladu cuddfan, ac adnoddau crefft ychwanegol. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol ddiweddaru'r polisi amddiffyn plant a'r datganiad o ddiben ar ôl ein hymweliad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion i'r darparwr o ran hyfforddiant amddiffyn plant, cadw cofnodion, mynediad at doiledau addas, ac asesiadau risg. Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth hwn. Maen nhw'n cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu trwy weithgareddau cyffrous a diddorol. Maen nhw'n mwynhau eu chwarae'n fawr iawn ac yn datblygu eu hannibyniaeth. Maen nhw'n gallu gwneud dewisiadau ac maen nhw'n hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a gallant fod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando ar eu llais.

Roedd y plant yn dewis yr hyn yr oedden nhw eisiau ei fwyta a'r hyn roedden nhw eisiau ei wneud. Roedd dewis o fwydydd brecwast ar gael i'r plant. Gwelsom ni nhw'n dewis yr hyn roedden nhw eisiau ei gael ar eu tost, a dywedodd plentyn wrthym ei fod yn gallu dewis cael ffrwyth, grawnfwyd neu dost. Yn ystod amser cinio, gofynnwyd i blant beth roedden nhw ei eisiau ar eu plât, ac roedd eu dewisiadau'n cael eu parchu. Roedd y plant yn rhydd i ddewis a oeddent eisiau cymryd rhan yn y gweithgareddau dan arweiniad oedolyn neu beidio. Er enghraifft, ar ddiwrnod yr ymweliad, cynigiwyd gweithgareddau plannu hadau a sgiliau rygbi, a chafodd y plant wybod y gallent gymryd rhan ynddyn nhw. Gwnaeth rhai ddewis ymuno â'r gweithgareddau arfaethedig, tra oedd eraill yn dewis gwneud gweithgareddau eraill o'u dewis. Roedd y drws i'r ardal awyr agored ar agor am y rhan fwyaf o'n hymweliad, ac roedd y plant yn mynd i mewn ac allan fel y mynnent. Roedd plant a rhieni'n cael gwybod am y gweithgareddau dyddiol cyn i'r gwyliau ddechrau. Trwy drafod â'r person â gofal, canfuom nifer o enghreifftiau o adegau lle roedd diddordebau a cheisiadau'r plant wedi dylanwadu ar yr adnoddau a brynwyd neu'r gweithgareddau a gynigiwyd.

Mae llais clir gan blant.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n gysurus ac yn ddigyffro yn y clwb, ac maen nhw'n gwybod pwy i siarad ag ef os nad ydyn nhw'n hapus.

Dywedodd plentyn wrthym y gallai siarad â'i ffrindiau a'r staff os oedd yn poeni ynghylch rhywbeth. Enwodd un aelod o'r staff gan ddweud, *"Byddai hi'n fy helpu i'n bendant!"* Roedd y plant yn hapus i rannu eu newyddion â'r staff o'u gwirfodd, ac yn sgwrsio â nhw mewn modd hamddenol a chysurus. Roedd y sylwadau gan rieni mewn llyfr sylwadau a chardiau

diolch yn cynnwys sylw fod plentyn yn 'dwli' dod i'r clwb, a disgrifiodd un rhiant y lle fel 'ail gartref hyfryd'.  Gallai'r plant ddod â'u hoff deganau eu hunain o adref i chwarae â nhw yn y clwb.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cydweithredu.  Maen nhw'n meddwl am deimladau eraill ac yn dangos caredigrwydd.

Gwnaeth plentyn fynd â'i ffrind at aelod o staff pan oedd ei ffrind wedi cynhyrfu.  Gwnaeth plentyn arall sylwi ar hyn hefyd, gan ddangos pryder a chysuro ei ffrind.  Gwnaeth y plant ymddwyn yn dda iawn trwy gydol ein hymweliad,  gan ffurfio rhes drefnus i gael eu cinio, cymryd eu tro ar y consol gemau Wii (gydag ychydig o gymorth gan aelod o'r staff), a chydweithredu wrth chwarae gemau fel pêl-droed, pŵl a chwarae rôl.  Roedd y plant wedi helpu i lunio'r rheolau ymddygiad ar gyfer y clwb ac roedd y rhain wedi'u harddangos. Roedd un plentyn yn llawn cyffro pan enillodd gêm ar y Wii, ac roedd y plant eraill yn gyffrous iddo hefyd, gan ddweud wrth y staff am yr hyn roedd wedi'i gyflawni.

Mae plant yn rhyngweithio'n dda iawn.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn llawn cyffro i gymryd rhan yn y gweithgareddau y maen nhw'n eu gwneud ac mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddyn nhw.

Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau yn y clwb.  Dywedodd plentyn wrthym ei fod wedi dod o hyd i chwilen yn y goedwig y diwrnod cynt, ac roedd wedi mwynhau hynny'n fawr iawn. A dywedodd plentyn arall wrthym yn gyffrous pan oeddem yn siarad am y gweithgaredd goedwig, *"Mae'n goedwig tylwyth teg!"* Roedd plentyn yn llawn cyffro wrth ddangos i aelod o'r staff y lluniau ar y pecyn hadau o'r planhigion roedd ef a phlentyn arall wedi'u plannu.  Roedd y plant wedi ymgolli mewn amrywiaeth o weithgareddau chwarae trwy gydol ein hymweliad.

Mae'r plant yn wirioneddol mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain ac i ddatblygu eu chwarae eu hunain.

Roedd y plant yn gwneud llawer o dasgau ar eu pen eu hunain yn hyderus.  Er enghraifft, gwelsom blant yn taenu menyn a jam ar eu tost, yn helpu eu hunain i ddiodydd o ddŵr, yn cario eu cyllyll a ffyrc a'u platiau bwyd i'r bwrdd, ac yn gwisgo a diosg eu cotiau eu hunain.  Gwelsom un plentyn yn ymuno â grŵp a oedd yn tynnu lluniau ar fwrdd.  Defnyddiodd y plentyn ychydig o dâp lliw ar ei llun, gan fynd i nôl siswrn o ddrôr gerllaw, torri'r gormodedd o dâp, dychwelyd y siswrn i'r drôr a rhoi'r sbwriel yn y bin, heb gael ei hatgoffa i wneud hynny.  Gwnaethom hefyd weld y plant yn gofyn am help, os oedd angen, ar ôl iddynt roi cynnig ar rywbeth eu hunain.  Er enghraifft, gwnaeth plentyn ofyn i aelod o'r staff am help gyda sip ei got, a gofynnodd plentyn arall am help i roi esgidiau am ddol.  Roedd y plant yn datblygu eu syniadau eu hunain yn eu chwarae.  Er enghraifft, gwnaeth y plant ddatblygu'r syniad o greu byd o dan y dŵr gyda chlai pan oedden nhw'n chwarae gyda theganau o greaduriaid y môr, a dywedodd un plentyn, *"Beth am wneud twnnel ar gyfer y llysywen?"* Gwelsom dystiolaeth fod y plant yn profi llawer o gyfleoedd dysgu a chwarae cyffrous, fel adeiladu cuddfan, creu draig Tsieineaidd, paentio gyda gwellt chwythu a marbls, coginio pitsas, gwneud cerfluniau â phren, a thynnu lluniau ar balmant.  Roeddent hefyd wedi cael nifer o gyfleoedd i archwilio a chymryd rhan mewn gweithgareddau mewn coetir lleol ac mewn lleoliadau eraill yn yr ardal, fel ymweliad â'r orsaf dân, taith i'r sinema, a chymryd rhan mewn 'Gŵyl Pobl Ifanc'.

Mae'r plant yn datblygu eu chwarae a'u hannibyniaeth yn dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn frwdfrydig ac maen nhw'n rhyngweithio'n gyson â'r plant mewn modd caredig a chadarnhaol. Maen nhw'n mynd ati i hybu ffordd iach o fyw ac yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn hybu datblygiad eu chwarae, eu hannibyniaeth a'u sgiliau unigol yn effeithiol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maen nhw'n dilyn y gweithdrefnau hyn yn hyderus ar y cyfan. Maen nhw'n hyrwyddo ffordd iach o fyw.

Roedd gan nifer o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol. Pan oedd damweiniau wedi digwydd, roedd y staff wedi cymryd camau priodol, fel gosod clytiau oer, ac roeddent wedi cadw cofnodion manwl, er nad oedd rhai o'r rhain wedi'u llofnodi gan rieni. Roedd y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd, a gwelsom fod y staff yn cadw cofnodion o ran tymheredd bwydydd. Roedden nhw wedi hysbysu adran Iechyd yr Amgylchedd eu bod yn darparu bwyd, ond nid oeddent wedi cael arolygiad hylendid ar adeg ein hymweliad. Roedd rhai o'r staff wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac roedd polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yn rhan o broses ymsefydlu'r staff. Fodd bynnag, wrth siarad ag aelod o'r staff am senario amddiffyn plant damcaniaethol, nid oedd yn gwbl eglur ynghylch y gweithdrefnau priodol i'w dilyn, ond roedd yn eglur iawn ynghylch pwy oedd yr unigolyn penodedig a phwysigrwydd atgyfeirio pryderon yn brydlon. Gwnaethom grybwyll hyn â'r unigolyn cyfrifol a'r person â gofal, a dywedasant wrthym eu bod yn bwriadu addasu eu proses ymsefydlu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth lawn. Roedd y staff wedi cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant ac wedi cadw cofnodion o'r rhain. Roedden nhw'n goruchwylio'r plant yn dda trwy gydol ein hymweliad.

Roedd y staff yn mynd ati i hybu ffordd iach o fyw, oherwydd roedd chwarae yn yr awyr agored yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac roedden nhw'n hyrwyddo bwyta'n iach. Ar ddiwrnod ein hymweliad, rhoddodd y staff bryd bwyd iachus o gaserol twrci, tatws stwnsh a brocoli i'r plant, a oedd wedi'i goginio gan gwmni arlwyo. Roedd bwydlen ar gael a oedd yn cael ei rhoi i rieni a phlant, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o brydau bwyd iach, fel tsili con carne a reis, cinio rhost, a phastai datws stwnsh gyda llysiau. Cadwodd y staff y drws i'r tu allan ar agor trwy gydol ein hymweliad, ac roedden nhw'n cefnogi ac yn annog chwarae corfforol y plant, fel chwarae pêl-droed a sboncio ar sboncwyr. Roedden nhw'n caniatáu i'r plant gael mynediad at ddŵr drwy'r dydd o beiriant dŵr.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Maen nhw'n creu awyrgylch cadarnhaol ac yn trin plant â charedigrwydd, gan hybu eu hunan-barch.

Roedd y staff yn frwdfrydig ynghylch eu rolau pan wnaethom siarad â nhw, ac roedd yn amlwg hefyd yn y modd roedden nhw'n rhyngweithio â'r plant eu bod yn mwynhau eu gwaith. Gwelsom staff yn cysuro plant. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn dorri llwy blastig ar gam, dywedodd aelod o'r staff yn siriol, *"Paid â becso. Dyma ti, un newydd sbon i ti*." Pan oedd plentyn wedi'i gynhyrfu ychydig, rhoddodd aelod o'r staff gwtsh i'r plentyn ar ei glin a rhoi llawer o gysur iddo. Roedd y staff yn siarad â'r plant yn gadarnhaol ac yn garedig, gan gynnwys pan oedden nhw eisiau iddyn nhw newid yr hyn roedden nhw'n ei wneud. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn cario bocs a oedd yn rhy fawr iddo, dywedodd aelod o'r staff, *"Gad i fi dy helpu. Am fachgen caredig!"* A phan oedd plant ar fin ffraeo ynghylch tro pwy oedd hi ar yr Wii, gwnaeth aelod o'r staff restr gyda nhw er mwyn i bawb gael tro teg.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod anghenion y plant yn dda ac yn defnyddio'u sgiliau i ddiwallu'r anghenion hyn. Maen nhw'n darparu amrediad o weithgareddau sy'n addas i wahanol ddiddordebau ac oedrannau, ac maen nhw'n cefnogi'r plant i ddatblygu eu chwarae a'u sgiliau eu hunain.

Roedd gan y mwyafrif o'r staff naill ai cymhwyster gofal plant neu chwarae, a gwelsom ni nhw'n annog y plant i ddatblygu eu sgiliau a'u syniadau eu hunain yn hytrach na gwneud pethau trostynt. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd clai, pan ddywedodd plentyn ei fod angen help, dywedodd aelod o'r staff, *"Gyda beth rwyt ti eisiau help, cariad? Fyddai rholbren yn helpu?"* ac aeth y plentyn ati'n hapus i roi cynnig ar wneud crempog ei hun. Gwnaeth yr aelod o staff hefyd ddweud wrth blentyn arall, *"Wyt ti eisiau pentwr o grempogau neu un wedi'i rolio?"* Roedd staff yn rhannu syniadau am weithgareddau mewn neges grŵp breifat ar-lein, ac roedden nhw'n arwain ar weithgareddau lle roedd ganddyn nhw sgiliau penodol, fel rygbi neu goginio. Clywsom rai o'r staff yn siarad Cymraeg yn naturiol â'r plant yn ogystal â Saesneg, fel "*Mae eisiau inni sychu dy wyneb di."* Roedd rhiant wedi nodi mewn llyfr sylwadau fod 'cymaint o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda'. Roedd yr holl rieni a gwblhaodd holiaduron AGC yn cytuno'n gryf fod gan eu plant ddewis da o weithgareddau chwarae i hybu eu datblygiad cyffredinol. Roedd rhai rhieni'n dewis rhoi sylwadau ychwanegol hefyd ynghylch yr amrywiaeth dda o weithgareddau 'hwyliog' a oedd yn cael eu cynnig.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddatblygu eu chwarae ac maen nhw'n diwallu eu hanghenion unigol yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd addas iawn, dan do ac yn yr awyr agored, ac maen nhw hefyd yn defnyddio'r coetir cyfagos er mwyn rhoi profiadau dysgu cyfoethog i blant. Maen nhw'n mynd ati mewn modd effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel trwy asesiadau risg a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, ond mae angen adolygu asesiadau risg ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle'n fwy rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn darparu digonedd o adnoddau amrywiol sy'n addas i ddiddordebau ac anghenion amrywiol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn nodi ac yn lleihau neu'n cael gwared ar risg. Mae ganddyn nhw systemau ar waith i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

Roedd yr arweinwyr wedi ysgrifennu asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer amgylchedd y clwb, yn ogystal ag asesiadau risg ar gyfer y teithiau rheolaidd i goetir cyfagos. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod asesiadau risg ar gyfer teithiau eraill yn fwy sylfaenol ac nid oeddent wedi'u hadolygu ers peth amser. Roedd system ar waith i wneud gwiriadau diogelwch a glendid rheolaidd trwy gydol y diwrnod, ac roedd y mannau a welsom yn edrych yn lân ac yn rhydd o beryglon. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod profion cyfredol wedi'u cwblhau ar ddyfeisiau cludadwy trydanol a gwnaethant gadarnhau bod gwiriadau diogelwch cyfredol wedi'u cwblhau ar y system wresogi drydanol. Roedd system ddiogel ar gyfer cael mynediad i'r clwb, a gwnaethom lofnodi llyfr ymwelwyr a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Roedd yr arweinwyr yn darparu setiau radio symud a siarad ar gyfer y staff, er mwyn i'r staff allu cyfathrebu â'i gilydd yn yr amgylchedd awyr agored a dan do pe bai angen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel mewn modd effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar blant, ac maen nhw'n cynllunio'r amgylchedd mewn modd sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a hamdden ar gyfer plant o wahanol oedrannau.

Roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd ysgol, a'r prif fannau a oedd yn cael eu darparu ar gyfer chwarae'r plant yn ystod ein hymweliad oedd y neuadd a man awyr agored. Dangosodd y person â gofal ystafell ddosbarth arall ac ystafell dawel i ni, a oedd hefyd yn cael eu defnyddio gan y plant i chwarae ac ymlacio ynddyn nhw pan oedd mwy o blant yn mynychu. Roedd gan blant fynediad at nifer priodol o doiledau a basnau golchi dwylo yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd y toiledau hyn yn eithaf bach ac nid oedden nhw'n addas i'r plant hŷn a oedd yn mynychu. Dangosodd y staff y toiledau eraill mwy addas i blant hŷn i ni, y gellid eu cyrraedd trwy'r ystafell ddosbarth nad oedd yn cael ei

defnyddio yn ystod ein hymweliad.  Er i'r person â gofal ddweud wrthym fod y plant yn gwybod bod y toiledau mwy o faint hyn ar gael, ni wnaethom weld plant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhain yn ogystal â'r rhai llai o faint.  Roedd gwahanol fannau wedi'u paratoi yn y neuadd, gan gynnwys ardal gemau gyda chonsol Wii a bwrdd pŵl, ardal chwarae rôl a chwarae byd bach, ardaloedd crefft, ffrâm ddringo, a 'chuddfan' gysurus gyda chlustogau meddal, y gwelsom y plant yn ei defnyddio i ddarllen, chwarae ac ymlacio ynddi.  Roedd iard, ardal goediog fechan ac ardal laswelltog fawr yn yr ardal y tu allan.  Roedd y plant yn rhydd i archwilio'r amgylcheddau dan do ac awyr agored oedd ar gael iddynt, a gallent gael gafael ar adnoddau'n hawdd, oherwydd roedd y mwyafrif o'r rhain yn weladwy ac wedi'u storio ar eu lefel nhw.  Y tu allan, roedd mwy o adnoddau wedi'u storio'n ddiogel mewn sied a gallai'r plant ofyn am y rhain.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas iawn.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn darparu amrediad o adnoddau sy'n addas i wahanol ddiddordebau a chamau datblygu.  Maen nhw'n darparu dodrefn ac offer sy'n briodol i anghenion y plant.

Roedd digonedd o adnoddau amrywiol ar gael i'r plant, a oedd yn caniatáu i'r plant gael dewis.   Roedd yr enghreifftiau o adnoddau'n cynnwys clai ac offer gwneud modelau, adnoddau crefft, teganau adeiladu, setiau chwarae byd bach, doliau a chyfwisgoedd, dillad gwisg ffansi, set drenau, gemau bwrdd, gemau consol, a chegin chwarae.  O ffeil yr adolygiad ansawdd gofal a thrwy drafod â'r person â gofal, gwnaethom nodi bod nifer o'r adnoddau wedi'u prynu mewn ymateb i geisiadau a diddordebau'r plant, fel set wyddbwyll a defnyddiau i adeiladu cuddfan.  Gallai'r plant eistedd ar feinciau ysgol i wneud gweithgareddau bwrdd gwaith, ond roedd ganddyn nhw hefyd glustogau cysurus i ymlacio arnyn nhw os oedden nhw'n dymuno.  Roedden nhw'n cael cyllyll a ffyrc metel priodol i fwyta eu prydau bwyd, ac roedd cwpanau ar gael i'r plant trwy gydol y diwrnod os oedden nhw eisiau helpu eu hunain i ddŵr ac nad oeddent wedi dod â'u poteli diodydd eu hunain.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau ac offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae ganddyn nhw bartneriaethau da â'r rhieni ac maen nhw'n cyfathrebu'n dda â nhw. Maen nhw'n datblygu systemau effeithiol i adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau parhaus iddo. Maen nhw'n rheoli'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben manwl ar waith, yn ogystal â pholisïau cynhwysfawr, sy'n cael eu hadolygu'n gyson.

Roedd yr arweinwyr wedi ysgrifennu datganiad o ddiben manwl a llawn gwybodaeth a oedd yn cael ei rannu gyda'r rhieni. Cafodd hwn ei ddiweddaru ymhellach ar ôl ein hymweliad er mwyn egluro rhai pwyntiau, fel gwybodaeth am hyfforddiant staff a phrisiau prydau bwyd. Gwnaethom ddarllen amrediad o bolisïau, a oedd yn addas i'r diben ac yn canolbwyntio ar y plant, fel polisïau ar gyfrinachedd a phreifatrwydd a bwlio. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod y clwb wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr unigolyn cyfrifol wrthi'n cwblhau polisi ar ddefnydd plant o'u dyfeisiau electronig personol eu hunain, a bydd hwn yn cael ei rannu gyda rhieni a staff maes o law. Gwnaeth hefyd ddiweddaru'r polisi diogelu ar ôl ein hymweliad, i gynnwys mwy o wybodaeth am y gweithdrefnau pe bai honiad yn cael ei wneud yn erbyn unigolyn cyfrifol. Roedd y polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r person â gofal i reoli'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system ar waith i adolygu ansawdd y gofal ac maen nhw'n gwrando ar farn pobl eraill.

Er bod y gwasanaeth dim ond wedi'i sefydlu ers chwe mis yn ei leoliad presennol, roedd yr arweinwyr eisoes wedi dechrau ar y broses o gasglu safbwyntiau ac archwilio eu harferion a'u gweithdrefnau. Roedden nhw wedi bod yn casglu gwybodaeth am y gwasanaeth a'i ddatblygiadau yn barod ar gyfer yr adroddiad ar yr adolygiad ansawdd gofal blynyddol, y bydd angen ei gyflwyno o fewn blwyddyn i pan wnaeth y gwasanaeth ddechrau gweithredu. Roedden nhw wedi dechrau anfon holiaduron at rieni ac wedi darparu llyfr sylwadau ar eu cyfer yn y cyntedd. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi paratoi holiaduron i blant ar wahanol bynciau, ac roedd y rhain hefyd ar gael yn y cyntedd. Dywedodd y person â gofal nad oedd y plant wedi ymateb yn dda i'r rhain hyd yma, ac roedd yn well ganddyn nhw gyflwyno'u safbwyntiau ar lafar wrth drafod â'r staff. Gwrandawyd ar safbwyntiau'r staff, oherwydd

roedden nhw'n gallu cyflwyno'u syniadau eu hunain ar gyfer gweithgareddau. Dywedodd aelod o staff wrthym mewn holiadur AGC fod arweinydd 'bob amser yn gwrando ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud ac yn rhannu syniadau gyda'r holl staff'.

Mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn datblygu'n dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn gweithredu ac yn adolygu'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â recriwtio, ymsefydlu a rheoli staff.

Gwnaethom wirio sampl o ffeiliau staff a chanfod bod gweithdrefn gadarn ar waith ar gyfer recriwtio staff mewn modd diogel. Roedd yr holl ddogfennaeth recriwtio berthnasol ar waith, ac roedd yr unigolyn cyfrifol yn rhoi gwybodaeth i ganolwyr am y swyddogaethau y byddai'r staff yn eu cyflawni fel y gallent roi sylwadau penodol ar eu galluoedd a'u sgiliau. Roedd yr arweinwyr yn cynnal sesiynau ymsefydlu gyda staff newydd ac yn cynnal cyfarfodydd 'diweddaru' gyda'r staff a oedd yn dychwelyd i weithio yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig. Yn ystod ein hymweliad, roedd aelod newydd o staff yn ymweld â'r clwb fel rhan o'r broses ymsefydlu, a chafodd gyfle i ddarllen polisïau a gweithdrefnau yn ogystal â rhyngweithio â'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi llunio templed manwl ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio, a oedd wedi'i ddatblygu o'u profiad mewn gwasanaethau cofrestredig eraill. Gwelsom ffurflen wedi'i llenwi, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Gwnaethom hefyd weld y memos staff a ddosbarthwyd ar gyfer y gwyliau hyn a'r gwyliau blaenorol, ac roedden nhw'n ysgogol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd yr unigolyn cyfrifol a'r person â gofal yn trefnu seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer y staff hefyd. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion presenoldeb, a chanfuom fod presenoldeb y plant yn cael ei gofnodi'n glir a bod system ar waith i sicrhau bod digon o staff yn gofalu am y plant ar bob adeg. Roedd yr arweinwyr hefyd yn nodi cymwysterau'r staff a oedd yn bresennol ar daflen gynllunio er mwyn sicrhau bod digon o staff cymwys a phriodol yn gofalu am y plant. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion presenoldeb yn dangos pryd roedd staff yn cymryd eu hamserau egwyl, pan nad oedden nhw'n gyfrifol am y plant, ac felly ni allwn fod yn gwbl hyderus o'r cofnodion fod digon o staff yn gofalu am y plant ar bob adeg. Dywedodd y person â gofal wrthym y byddai'n rhoi sylw i hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad. Roedd yr arweinwyr yn hysbysu AGC pan fyddai unrhyw newidiadau staff, yn unol â'r rheoliadau.

Mae'r gwaith o reoli staff ac adnoddau eraill yn effeithiol iawn ar y cyfan.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a chydag asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion y plant.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion plant, a chanfuom fod yr arweinwyr wedi cael gwybodaeth fanwl gan rieni am anghenion a dewisiadau'r plant. Roedden nhw wedi cytuno ar gontractau gyda'r rhieni am ofal y plant, ac roedden nhw'n gofyn caniatâd y rhieni am agweddau penodol ar y gofal, fel tynnu lluniau, rhoi eli haul ar blant, a mynd am dro yn yr ardal leol. Roedd yr arweinwyr yn cyfathrebu â rhieni ar lafar yn y clwb, a hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am y gwasanaeth trwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol, fel gwybodaeth am weithgareddau ar gyfer y gwyliau nesaf. Roedd y rhieni'n cael cyfle i ddarllen polisïau a'r datganiad o ddiben cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd yr holl rieni a gwblhaodd holiaduron AGC yn cytuno'n gryf fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â rhieni. Roedd yr arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth agos â phennaeth a staff yr ysgol y lleolwyd y gwasanaeth ynddi. Roedden nhw hefyd wedi dechrau gweithio gyda swyddog datblygu'r Gymraeg er mwyn gwella safon y ddarpariaeth Gymraeg yn y clwb, ac roedden nhw wedi gweithio gydag asiantaethau sy'n darparu cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol i blant ag anghenion ychwanegol. Roedden nhw'n agored i weithio gyda phartïon eraill a rhannu arfer da, ac roedden nhw wedi gweithio gyda myfyriwr yn ddiweddar a ddaeth i arsylwi ar weithgareddau awyr agored y clwb yn y coetir fel rhan o'i astudiaethau.

Mae partneriaethau'n effeithiol iawn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Amherthnasol, oherwydd hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod yr holl staff yn gwbl hyderus ynghylch gweithdrefnau amddiffyn plant priodol
- Sicrhau bod rhieni'n llofnodi pob cofnod o ddamwain
- Gwella cywirdeb cofnodion presenoldeb staff trwy gofnodi'r amserau y mae'r staff ar eu hamserau egwyl
- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad hawdd at doiledau o faint addas ar bob adeg
- Adolygu'r asesiadau risg ar gyfer teithiau cyn mynd ar y teithiau hynny

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 10 Ebrill 2018 am oddeutu chwe awr a hanner. Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff
- siarad â'r plant, rhieni, staff, yr unigolyn cyfrifol a'r person â gofal
- darllen pedwar holiadur gan rieni ac un gan staff
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn ar 12 Ebrill 2018

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal y tu allan i oriau ysgol** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Emma Healy** |
| **Person â gofal** | **Lianne Savage** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **50** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng pedwar a 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 3.30pm a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.**<br>**Rhwng 8.30am a 5.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS.**<br>**Mae'r gwasanaeth ar gau dros wyliau banc.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Amherthnasol, oherwydd hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **10 Ebrill 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |